# Nodyn ymchwil: Diwygio'r PAC – Gwyrddu

## Gorffennaf 2014

## Cyflwyniad

Ar 24 Medi 2013 daethpwyd i gytundeb gwleidyddol ar y pecyn diwygio ar gyfer y **Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) ar gyfer y cyfnod 2014-20**.

Gwnaed newidiadau sylweddol i'r gofynion sy'n ymwneud â thaliadau uniongyrchol, gan gynnwys cyflwyno gofyniad 'gwyrddu'. Bydd 30% o daliadau uniongyrchol ffermwyr bellach yn amodol ar a fyddant yn bodloni'r meini prawf gwyrddu newydd.

Fodd bynnag, mae'r gofynion gwyrddu newydd yn cynnig cryn dipyn o hyblygrwydd i Aelod-wladwriaethau a Rhanbarthau o ran sut i roi'r gofynion hyn ar waith. Mae hyn yn caniatáu iddynt deilwra'r polisi i'w harferion a'u polisïau amaethyddol eu hunain ac mae hyn wedi arwain at ddull gweithredu gwahanol ar wyrddu yn yr UE a'r DU.

Ceir manylion am y meini prawf gwyrddu newydd a sut y cânt eu rhoi ar waith mewn ffyrdd gwahanol ledled y DU yn y nodyn hwn.

## Colofn 1 2014-20

Mae'r PAC yn seiliedig ar strwythur dwy golofn sy'n ariannu polisïau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol.

Disgrifir taliadau uniongyrchol i ffermwyr a chymorth i'r farchnad amaethyddol fel Colofn 1 o'r PAC. Caiff hyn ei ategu gan Raglenni Datblygu Gwledig Colofn 2.

O dan y Golofn 1 ddiwygiedig mae'n ofynnol i ffermwyr, am y tro cyntaf, ddarparu mesurau amgylcheddol blynyddol er mwyn cael canran o'u taliadau uniongyrchol. Gelwir y gofynion newydd gorfodol hyn yn 'wyrddu'.

### Cefndir ariannol

Gosod y gyllideb ar gyfer Colofn 1 oedd un o elfennau mwyaf heriol y trafodaethau ar y PAC gan fod y PAC yn cyfateb i gyfran sylweddol iawn o wariant cyffredinol yr UE; tua 40% o gyllideb yr UE yn 2013[1].

Disgwylir i'r DU dderbyn €25.1 biliwn mewn taliadau uniongyrchol (Colofn 1), sy'n cyfateb i ostyngiad mewn termau real o 12.6% o gymharu â lefelau 2007-13[2]. Caiff y gostyngiad yng nghronfeydd y PAC ei rannu'n gyfartal ar draws Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban[3].

Bydd Cymru'n derbyn cyllideb Colofn 1 o €322 miliwn y flwyddyn erbyn 2019 yn seiliedig ar brisiau cyfredol; cyfran o 9% o derfyn cyllideb y DU[4].

Caiff 30% o'r gyllideb Colofn 1 hon ei neilltuo ar gyfer gwyrddu. Yn ogystal, rhoddodd y PAC diwygiedig yr opsiwn i Aelod-wladwriaethau a Rhanbarthau drosglwyddo hyd at 15% o gyllideb Colofn 1 i Golofn 2[5]. Mae gwahanol wledydd y DU wedi dewis trosglwyddo symiau gwahanol o Golofn 1 i Golofn 2 ac mae Cymru wedi penderfynu trosglwyddo'r 15 y cant llawn.

### Gofynion gwyrddu

Gall Aelod-wladwriaethau (cyfeirir at Aelod-wladwriaethau a'u rhanbarthau fel 'Aelod-wladwriaethau' o hyn ymlaen) ddewis naill ai gweithredu'r taliad gwyrddu fel cyfradd safonol yn

---

[1] Y Comisiwn Ewropeaidd, Tudalen rhaglen ariannol a chyllideb, ***Budget 2013 in figures as on 19 November 2013***, (gwefan) [fel ar 20 Mehefin 201]
[2] .GOV.UK Datganiad i'r Wasg, ***CAP allocations announced***, 8 Tachwedd 2013
[3] *ibid*
[4] *ibid*
[5] Y Cyngor Ewropeaidd (EUCO 37/13), ***Conclusions on the Multiannual Financial Framework***, 8 Chwefror 2013

seiliedig ar ardal fesul hectar neu fel 30% o'r taliadau y mae hawl gan bob ffermwr i'w cael bob blwyddyn. Mae ffermwyr yn cael eu taliadau uniongyrchol o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol newydd, sy'n disodli Cynllun y Taliad Sengl.

Bydd yn rhaid i ffermwyr gydymffurfio â thri maen prawf, sy'n gymwys ledled Ewrop, er mwyn cael y taliad gwyrddu:

– **Tyfu Amrywiaeth o Gnydau**

– **Cadw Glaswelltir Parhaol**

– **Ardaloedd â Ffocws Ecolegol**

Fodd bynnag, fel dull amgen i'r gofynion gwyrddu safonol, mae'r opsiwn gan Aelod-wladwriaethau i sefydlu eu gofynion gwyrddu eu hunain fel rhan o gynllun ardystio cenedlaethol. Rhaid i'r cynllun ddarparu budd amgylcheddol cyfatebol a chael ei gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd.

## Tyfu Amrywiaeth o Gnydau

Dim ond i dir âr y mae hyn yn berthnasol.

Rhaid i ffermwyr sydd â rhwng 15 a 30 hectar o dir âr dyfu dau gnwd âr, ac ni ddylai un o'r cnydau gyfateb i fwy na 75% o gyfanswm yr ardal. Rhaid i ffermwyr sydd â mwy na 30 hectar o dir âr dyfu tri chnwd; ni ddylai un cnwd fod yn fwy na 75% ac ni ddylai dau gnwd fod yn fwy na 95%. Caiff amrywiaethau cnwd sydd wedi'u hau yn y gaeaf a rhai sydd wedi'u hau yn y gwanwyn eu cyfrif fel cnydau ar wahân.

O ran gofynion tyfu amrywiaeth o gnydau, diffinnir cnwd yn y **dosbarthiad botanegol o gnydau**, neu fel tir braenar, glaswelltau neu borthiant glas arall, neu fel meithriniad yn y 'teuluoedd' botanegol Brassicaceau, Solanaceae, a Cucurbitaceae, sy'n cynnwys niferoedd mawr o gnydau amaethyddol.

## Cadw Glaswelltir Parhaol

Diffinnir glaswelltir parhaol fel tir sydd wedi bod yn laswelltir ers 5 mlynedd neu fwy. Dylid cadw'r gymhareb o laswelltir parhaol i gyfanswm ardal amaethyddol ac ni ddylai ostwng mwy na 5% o gymharu â'r gymhareb yn 2012. Gellir monitro'r gymhareb ar lefel genedlaethol, rhanbarthol neu is-ranbarthol.

Os caiff y gofyniad hwn ei fonitro ar lefel ranbarthol, byddai gostyngiad o fwy na 5% mewn glaswelltir parhaol yn golygu y byddai'n ofynnol i ffermwyr unigol droi tir yn laswelltir parhaol unwaith eto.

Mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau hefyd ddynodi glaswelltir parhaol sy'n amgylcheddol sensitif ac sy'n perthyn i feysydd a gwmpesir gan y Cyfarwyddebau Cynefinoedd[6] ac Adar[7]. Bydd yr ardaloedd glaswelltir parhaol dynodedig hyn yn destun gwaharddiad aredig ac addasu.

Ceir opsiwn hefyd i ymestyn y gwaharddiad hwn i laswelltir parhaol sensitif mewn ardaloedd eraill nad ydynt yn perthyn i'r rhai a gwmpesir gan y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar.

## Ardaloedd â Ffocws Ecolegol

Rhaid i ffermwyr sydd â mwy na 15 hectar o dir âr gadw o leiaf 5% fel Ardal â Ffocws Ecolegol erbyn 2015, a fydd yn codi i 7% erbyn 2017 (yn amodol ar adolygiad). Mae gan Aelod-wladwriaethau ddewis o'r defnydd tir a'r nodweddion y gellir eu defnyddio gan ffermwyr i gyfrif tuag at eu hymrwymiad Ardal â Ffocws Ecolegol.

Mae'r rhestr o opsiynau yn cynnwys ymylon caeau, perthi, coetir, tir braenar, nodweddion tirwedd (e.e. safleoedd archeolegol, waliau sychion), lleiniau clustogi a phyllau dŵr.

---

6 *OJ L 206, 22.7.92*
7 *OJ L 20/7, 26.1.10*

Ymhlith yr opsiynau ychwanegol o dan y gofyniad hwn mae,

– gweithredu hyd at 50% o'r ymrwymiad Ardal â Ffocws Ecolegol ar lefel ranbarthol er mwyn cael ardaloedd cyffiniol â ffocws ecolegol.

– caniatáu i grwpiau hyd at ac yn cynnwys 10 o ffermwyr gyflawni eu gofyniad Ardal â Ffocws Ecolegol ar y cyd, gan dybio bod eu Hardal â Ffocws Ecolegol yn gyffiniol.

– y defnydd o fatrics trosi i gymhwyso ffactorau trosi a phwysoli wrth gyfrifo cyfraniad y nodweddion Ardal â Ffocws Ecolegol unigol at gyflawni'r ymrwymiad cyfan ar lefel fferm. Gellir defnyddio hyn i droi nodweddion llinellol yn ardal gyfatebol sy'n adlewyrchu ei budd ecolegol.

## Cydymffurfiaeth ac Eithriadau

Bydd ffermwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion gwyrddu yn colli eu taliad gwyrddu.

O 2017 ymlaen, bydd ffermwyr nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion gwyrddu hefyd yn colli swm ychwanegol sy'n cyfateb i 20% o'u taliad gwyrddu, a fydd yn codi i 25% o 2018 ymlaen.

Efallai y caiff rhai ffermydd eu heithrio rhag mesurau gwyrddu unigol neu'r gofynion gwyrddu yn eu cyfanrwydd er eu bod yn gymwys o hyd i gael y taliad gwyrddu. Er enghraifft, caiff ffermydd organig eu heithrio'n llwyr.

Efallai y caiff ffermydd eu heithrio rhag y gofynion yn ymwneud â thyfu amrywiaeth o gnydau[8]:

**01.** os bydd mwy na 75% o'r tir cymwys yn:

– laswelltir parhaol;

– cael ei ddefnyddio i gynhyrchu glaswelltau (neu borthiant glas);

– cael ei ddefnyddio i drin cnydau o dan y dŵr;

– cyfuniad o'r uchod a bod y tir âr sy'n weddill yn 30 hectar neu lai.

**02.** os bydd mwy na 75% o dir âr yn:

– dir braenar;

– cael ei ddefnyddio i gynhyrchu glaswelltau (neu borthiant glas arall);

– cyfuniad o'r uchod a bod y tir âr sy'n weddill yn 30 hectar neu lai.

**03.** os bydd y fferm yn cynnwys tir newydd a chnydau gwahanol:

– os bydd mwy na 50% o'r tir âr cymwys a ddatganwyd ar gais Cynllun y Taliad Sylfaenol 2015 yn wahanol i'r tir a ddatganwyd ar gais Cynllun y Taliad Sengl 2014;

– os bydd y tir âr cymwys a ddatganwyd ar gais Cynllun y Taliad Sylfaenol 2015 yn cael ei ddefnyddio i dyfu cnwd gwahanol i flwyddyn galendr 2014.

Efallai y caiff ffermydd eu heithrio rhag gofynion Ardal â Ffocws Ecolegol hefyd[9]:

**01.** Os bydd mwy na 75% o'r tir âr yn:

– dir braenar

– glaswelltir dros dro

– cael ei ddefnyddio i drin codlysiau

– cyfuniad o'r uchod a bod y tir âr sy'n weddill yn 30 hectar neu lai.

**02.** Neu os bydd mwy na 75% o gyfanswm yr ardal amaethyddol gymwys yn:

– laswelltir parhaol

– glaswelltir dros dro

[8] DEFRA, ***Greening: work out what it means for you***, Mehefin 2014 [fel ar 26 Mehefin 2014]

[9] DEFRA, ***Greening: work out what it means for you***, Mehefin 2014 [fel ar 26 Mehefin 2014]

– cael ei defnyddio i drin cnydau a dyfir mewn dŵr (megis berwr dŵr)

– cyfuniad o'r uchod a bod y tir âr sy'n weddill yn 30 hectar neu lai.

Amcangyfrifodd gwaith ymchwil **a gyhoeddwyd yn y cyfnodolyn Science** y gallai fod rhwng 80 a 90% o ffermwyr a 50% o gyfanswm y ffermdir yn yr UE wedi eu heithrio rhag o leiaf dau o'r tri gofyniad gwyrddu.

Dywedodd awduron y gwaith ymchwil fod y mesurau gwyrddu mor wan fel eu bod yn annhebygol o fod o fudd i fioamrywiaeth.

## Teilwra'r Polisi

Drwy ganiatáu i Aelod-wladwriaethau ddatblygu eu hardystiad cenedlaethol eu hunain fel dull amgen i'r gofynion gwyrddu neu er mwyn eu hategu, mae PAC 2014-20 yn cynnig mwy o hyblygrwydd o gymharu â gweithrediadau blaenorol.

Mae gan bob un o lywodraethau'r DU drefniadau PAC gwahanol. Rhaid hysbysu Ewrop sut y bydd pob llywodraeth yn dyrannu taliadau uniongyrchol erbyn 1 Awst 2014. Yn ogystal, rhaid i'r llywodraethau hysbysu derbynyddion Cynllun y Taliad Sylfaenol o'r union feini prawf ar gyfer y pecyn o fesurau gwyrddu y maent yn bwriadu eu gweithredu.

## Penderfyniadau gwyrddu: Llywodraeth Cymru

Ar 14 Ionawr 2014 cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, Alun Davies, benderfyniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'r PAC diwygiedig[10].

[10] Llywodraeth Cymru, Alun Davies (Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd), ***Gweithredu Polisi Amaethyddol Cyffredin newydd***, Datganiad Llafar y Cabinet, 14 Ionawr 2014 [fel ar 26 Mehefin 2014]

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi'r cynigion gwyrddu safonol ar waith. Dywedodd Llywodraeth Cymru[11]:

> Mabwysiadu'r mesurau safonol fyddai'r drefn symlaf i'r rhan fwyaf o ffermydd, heb effeithio'n arwyddocaol ar eu busnesau. Cafwyd cefnogaeth sylweddol i'r opsiwn hwn yn yr ymgynghoriad. Mae Colofn 2 yn gyfrwng gwell ar gyfer gweithredu er lles yr amgylchedd naturiol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu trosglwyddo'r uchafswm a ganiateir, sef 15% o gyllideb Colofn 1, i Golofn 2[12].

Cyhoeddwyd rhagor o benderfyniadau ar sut y caiff Colofn 1 ei rhoi ar waith yng Nghymru ar 1 Gorffennaf 2014[13].

O ran Ardaloedd â Ffocws Ecolegol, bydd y sawl sy'n hawlio yn cael cynnwys tir braenar, perthi, muriau cerrig, coedlan cylchdro byr, tir coedwigaeth a thir a ddefnyddir ar gyfer cnydau bachu nitrogen. Dywedodd Llywodraeth Cymru:

> Bydd y rhan fwyaf o ffermydd Cymru yn gymwys am y cynllun gwyrddu am eu bod yn dir pori parhaol, ond i'r rheini nad ydynt yn gymwys, bwriad yr opsiwn Ardaloedd â Ffocws Ecolegol (EFAs) yw cynnig hyblygrwydd yn ogystal â hyrwyddo defnyddio tir mewn ffordd sy'n sicrhau manteision amgylcheddol.

[11] Llywodraeth Cymru, ***Y Diwygiadau i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr: Penderfyniadau,*** Ionawr 2014 [fel ar 26 Mehefin 2014]
[12] Llywodraeth Cymru, ***Y Diwygiadau i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr: Penderfyniadau,*** Ionawr 2014 [fel ar 26 Mehefin 2014]
[13] Llywodraeth Cymru, Alun Davies (Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd), *Penderfyniadau pellach ar Golofn 1 y Polisi Amaethyddol Cyffredin*, Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet, 1 Gorffennaf 2014 [fel ar 2 Gorffennaf 2014]

Mae'r diffiniad o 'dir pori parhaol' wedi cael ei ehangu i gynnwys llwyni a choed pori, a thir lle nad yw glaswelltau a blodau yn niferus, megis rhostir. Bydd glaswelltir parhaol mewn unrhyw Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ar y tir, ac eithrio safleoedd a ddynodwyd yn benodol ar gyfer nodweddion daearegol neu wyddor daear, hefyd yn cael eu dynodi'n ardal sensitif.

Caiff y taliadau gwyrddu eu rheoli ar lefel ranbarthol ac ni fydd opsiynau i ganiatáu Ardaloedd â Ffocws Ecolegol ar y cyd yn cael eu rhoi ar waith oherwydd dywed Llywodraeth Cymru fod y cymhlethdod gweinyddol a'r risg gydymffurfio yn drech na'r budd.

Mae penderfyniadau Llywodraeth Cymru yn dilyn **ymgynghoriad ar daliadau uniongyrchol i ffermwyr** a gynhaliwyd cyn cytuno ar y trefniant i ddiwygio'r PAC; cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng r6 Chwefror 2013 a 7 Mai 2013 a chafodd gyfanswm o 40 o ymatebion.

Amcangyfrifir y bydd 86% o ffermydd dros 20 hectar a 98% o ffermydd llai yng Nghymru yn gymwys ar gyfer y taliadau gwyrddu drwy gyfrwng y gofyniad glaswelltir parhaol yn unig[14].

## Penderfyniadau Gwyrddu: Y DU

### Lloegr

Ym mis Rhagfyr 2013, **cyhoeddodd Llywodraeth y DU** ei bod yn bwriadu rhoi'r mesurau safonol ar waith.

Cafodd y meini prawf gwyrddu ar gyfer Ardaloedd â Ffocws Ecolegol newydd eu **cyhoeddi ar 10 Mehefin 2014**. Bydd ffermwyr yn cael dewis sut i gyflawni'r gofyniad Ardal â Ffocws Ecolegol o restr sy'n cynnwys:

– gadael tir yn dir braenar

– creu lleiniau clustogi

– defnyddio 'is-gnydau a chnydau gorchudd' i sicrhau ffrwythlondeb ac ansawdd y pridd

– defnyddio Cnydau Bachu Nitrogen fel codlysiau

– defnyddio perthi

**Dywedodd Llywodraeth y DU** fod y penderfyniad i gynnwys perthi fel opsiwn ar gyfer gofynion yr Ardal â Ffocws Ecolegol yn deillio o orfod cydbwyso pwysau sy'n groes i'w gilydd i wneud y broses o gydymffurfio â gwyrddu yn syml ac ar yr un pryd dim ond ymrwymo i opsiynau y gellir eu cyflawni.

Yn ogystal, ni fydd Llywodraeth y DU yn dynodi ardaloedd ychwanegol o dir sensitif[15].

Bydd gostyngiadau mewn taliadau yn gymwys i ffermydd sy'n rhan o'r cynllun Stiwardiaeth Lefel Mynediad (Colofn 2) ar 1 Ionawr 2012 neu wedi hynny er mwyn osgoi ariannu gwasanaethau amgylcheddol tebyg ddwywaith drwy'r ddwy Golofn[16]. Er enghraifft, ni ellid derbyn taliad am greu llain glustogi laswelltog fel mesur gwyrddu (Colofn 1) yn ogystal â llain glustogi o dan y mesur hinsawdd amaeth-amgylcheddol (Colofn 2).

Mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu trosglwyddo 12% o'r cronfeydd sydd ar gael yng Ngholofn 1 i Golofn 2, cynnydd o 9% o gymharu â'r hyn a gafwyd yn PAC 2007-13[17].

[14] Llywodraeth Cymru, ***Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin: Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr: Y Camau Nesaf***, 6 Chwefror 2013 [fel ar 27 Mehefin 2014]

[15] Llywodraeth y DU, ***Consultation on the implementation of CAP Reform in England: Government decisions on Greening***, Mehefin 2014 [fel ar 24 Mehefin 2016]

[16] DEFRA, ***Double Funding and Environmental Stewardship agreements***, [cyrchwyd 24 Mehefin 2014]

[17] Llywodraeth y DU (Datganiad i'r Wasg), ***Implementation of CAP announced***, 19 Rhagfyr 2013

**Mae Datganiad i'r Wasg gan Lywodraeth y DU yn datgan** yn ystod trafodaethau'r UE fod Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) wedi dadlau na ddylai gofynion gwyrddu fod yn rhan o Golofn 1 am eu bod o'r farn bod buddiannau amgylcheddol yn cael eu cyflawni'n well drwy Golofn 2.

Dywedodd Ysgrifennydd yr Amgylchedd Owen Paterson:

> We want farmers to be free to do what they do best: producing food and helping to grow the economy. I have said all along the EU's CAP reform is disappointing, but we have worked hard to remove the worst aspects and to make these new rules as easy as possible and given flexibility on how they are implemented, as well as reducing the burden of regulations.

## Yr Alban

Mae **Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi** pecyn o fesurau gwyrddu sy'n cynnwys rhai mesurau safonol a rhai mesurau cyfatebol:

- **Tyfu Amrywiaeth o Gnydau** – caniateir i ffermwyr ddewis y gofynion gwyrddu safonol, gofyniad 'gorchudd pridd gaeaf' cyfatebol, neu ofyniad 'is-gnydau' cyfatebol.
- **Glaswelltir Parhaol -** bydd yn ofynnol i ffermwyr gynhyrchu cynllun rheoli maethynnau, gan gyfeirio hyn yn bennaf at y ffermydd mwyaf dwys.
- **Ardaloedd â Ffocws Ecolegol** – caiff mesurau safonol eu rhoi ar waith a bydd nodweddion fel tir braenar, lleiniau clustogi ar hyd cyrsiau dŵr ac ymylon caeau, is-gnydau a chnydau bachu nitrogen (gydag amodau rheoli) yn cyfrif tuag at y gofyniad.

Caiff y taliadau gwyrddu eu rhoi ar waith gan ddefnyddio strategaeth yn seiliedig ar ardal lle y caiff ffermydd eu talu yn ôl ansawdd tir traddodiadol[18]. Ni fydd Llywodraeth yr Alban yn dynodi glaswelltir ychwanegol ychwaith a dim ond ar lefel fferm unigol y caiff y gofyniad Ardal â Ffocws Ecolegol ei roi ar waith.

## Gogledd Iwerddon

Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi penderfynu peidio â defnyddio unrhyw opsiynau amgen fel gofynion gwyrddu[19].Cyhoeddodd hefyd y bydd glaswelltir parhaol yn cael ei fonitro ar lefel ranbarthol yn hytrach na lefel fferm unigol ac na fydd yn cynnwys opsiynau eraill fel ymestyn y gwaharddiad aredig/addasu i ardaloedd o laswelltir nas dynodwyd, na threfniadau ar y cyd rhwng ffermydd cyffiniol er mwyn cyflawni ymrwymiadau Ardal â Ffocws Ecolegol[20]. Caiff yr holl diroedd cymwys eu trin yn gyfartal ac ni chaiff cyfernodau lleihau eu cymhwyso[21]. Ni fydd cronfeydd yn cael eu trosglwyddo o Golofn 1 i Golofn 2 nac i'r gwrthwyneb[22].

Caiff y nodweddion a'r ardaloedd canlynol eu defnyddio fel meini prawf Ardal â Ffocws Ecolegol yng Ngogledd Iwerddon[23]:

- Tir braenar;
- Nodweddion tirwedd y mae'n rhaid eu cadw o dan broses drawsgydymffurfio (a fydd mewn unrhyw achos yn cynnwys perthi, ffosydd a waliau cerrig);
- Ardaloedd o agrogoedwigaeth;

---

[18] Llywodraeth yr Alban, *CAP Reform*, Datganiad Seneddol gan Ysgrifennydd y Cabinet, 11 Mehefin 2014.
[19] Yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, ***CAP Pillar 1 Direct Payments – Summary of Decisions***. 14 Mawrth 2014 [fel ar 23 Mehefin 2014]
[20] *ibid*
[21] Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Michelle O'Neill (Y Gweinidog Amaethyddiaeth), ***Technical Decisions on CAP Pillar I Direct Payments***, 9 Ebrill 2014 [fel ar 24 Mehefin 2014]
[22] Cynulliad Gogledd Iwerddon, *Current status of CAP implementation in the UK and Ireland*, 16 Ebrill 2014 [fel ar 26 Mehefin 2014]
[23] Yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, ***CAP Pillar I Direct Payments – Summary of Decisions***. 14 Mawrth 2014 [fel ar 23 Mehefin 2014]

– Ardaloedd â choedlan cylchdro byr heb unrhyw ddefnydd o wrtaith mwynau a/neu gynhyrchion diogelu planhigion;

– Ardaloedd coedwigaeth a ddefnyddiwyd i hawlio Taliad Sengl yn 2008;

– Ardaloedd â chnydau bachu nitrogen.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **Diwygio'r PAC – Gwyrddu**, cysylltwch â **Nia Seaton** (**Nia.Seaton@Wales.gov.uk**), Y Gwasanaeth Ymchwil.

**Gweler hefyd:**

Papur Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru: **Diwygio'r CAP 2014-20: Cytundeb yr UE a'i Weithrediad yn y DU ac Iwerddon**

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@SeneddYmchwil**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Nodyn Ymchwil hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff on ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Ymholiad rhif: 14/1739**